GIG CYMRU NHS WALES | Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | Welsh Ambulance Services University NHS Trust

# WAST Yn Cysylltu

**HYDREF 2024**




**I Gefnogi. I Wasanaethu. I Achub.**

## Neges gan y Prif Weithredwr

Helo, a chroeso i rifyn mis Medi o WAST yn Cysylltu. Mae ein cynlluniau newydd uchelgeisiol ar gyfer y tair blynedd nesaf wedi'u cymeradwyo gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Wrth wraidd ein **Cynllun Tymor Canolig Integredig** mae cydnabyddiaeth bod angen trawsnewid y ffordd rydym yn darparu gwasanaethau yn radical, nid yn unig ar gyfer ein cleifion a'n pobl, ond ar gyfer y system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. Mae ein model ymateb clinigol sy'n esblygu'n barhaus yn ceisio rheoli cleifion yn ddiogel i ffwrdd o'r adran achosion brys trwy gludo'r rhai y mae gwir angen iddynt fod yno yn unig. Dylai ffocws manylach ar gynllunio gofal penodol claf, gan ddechrau gyda sgrinio gwell ar gyfer galwadau 999 ac 111 gan glinigwyr profiadol, nid yn unig wella profiad y claf ond gobeithio y bydd yn helpu i leihau niwed y gellir ei osgoi. Er mai'r flaenoriaeth i raddau helaeth yw'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol, mae hefyd yn bwysig myfyrio ar yr hyn a gyflawnwyd hyd yma. Bydd ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn ddiweddarach y mis hwn yn rhoi'r cyfle perffaith i wneud hyn, a byddwn yn eich gwahodd i ymuno â ni drwy **Zoom** ar gyfer cyfres o gyflwyniadau am y mentrau gwych rydym wedi'u cyflwyno yn 2023/24. Hoffwn estyn llongyfarchiadau i Nigel Rees, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ymchwil ac Arloesedd, ar ei Athro er Anrhydedd ym Mhrifysgol Warwick, sy'n dyst i'w allu i arwain ymchwil o safon fyd-eang sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl. Fe gofiwch i ni dderbyn **statws Ymddiriedolaeth Brifysgol** gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill am ein hymrwymiad i ddatblygu ein gweithlu a sbarduno ymchwil ac arloesi, sy'n cael ei bersonoli gan Nigel. Llongyfarchiadau, Athro Rees. Rydym wedi cael mwy na 300 o enwebiadau ar gyfer ein **Gwobrau WAST blynyddol**, sy'n gyfle i gydnabod, dathlu a chymeradwyo ein staff a'n gwirfoddolwyr. Mae angen eich help arnon ni i ddewis yr enillwyr, felly darllenwch ymlaen am fanylion ynglŷn â sut i fwrw pleidlais. Wrth i ni baratoi ein hunain ar gyfer cyfnod prysur y gaeaf, rwy'n dal yn hynod falch o'r rôl y mae staff a gwirfoddolwyr #TîmWAST yn ei chwarae wrth helpu i ddarparu'r gofal gorau posibl i bobl Cymru, er gwaethaf set o amgylchiadau hynod heriol. Diolch iddyn nhw, a hefyd i chi am eich cefnogaeth barhaus.



**Jason Killens**
Prif Weithredwr
Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

## Cipolwg ar Berfformiad

### Medi 2024

Bu **34,311** o ddigwyddiadau 999

Mynychodd ein criwiau **5,267** o alwadau coch lle'r roedd bywyd mewn perygl uniongyrchol

Fe wnaeth ein gwasanaeth brys gludo **13,434** o bobl i'r ysbyty

Cwblhaodd ein Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys **46,053** o deithiau

Bu **69,877** o alwadau i GIG 111 Cymru

Mynychwyd **758** o ddigwyddiadau gan Ymatebwyr Cyntaf Cymunedol Gwirfoddol

Cwblhaodd ein Gwasanaeth Ceir Gwirfoddol **3,680** o deithiau

# Tu ôl i'r Penawdau




**Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn lansio menter 'ffôn coch' mamolaeth**

Mae'r fenter 'ffôn coch' yn galluogi criwiau ambiwlans i ragrybuddio unedau mamolaeth am argyfyngau obstetreg sy'n hanfodol o ran amser fel bod timau derbyn yn barod i'r claf gyrraedd. Mae'r sgyrsiau rhwng y clinigwr a'r clinigwr drwy linell ffôn benodol wedi'u cynllunio i symleiddio cyfathrebu rhwng criwiau ambiwlans a staff ysbytai a gwella gofal y claf ymhellach. Dywedodd Bethan Jones, Hyrwyddwr Diogelwch Amenedigol a Bydwraig gyda Gwasanaethau Ambiwlans Cymru: “Mae pob eiliad yn cyfrif mewn argyfwng, felly po fwyaf o wybodaeth y gallwn ei throsglwyddo i'r uned famolaeth, y gorau y gallant baratoi trwy alw'r clinigwyr cywir i mewn a threfnu popeth sydd ei angen arnynt i ddarparu gofal brys. “Mae’r ffôn coch yn ein galluogi i wneud yn union hynny, gan weithredu fel un pwynt mynediad i unedau obstetreg, gwella cyfathrebu a fydd yn ei dro yn ein galluogi i ddarparu gofal amserol o ansawdd uchel i’r claf a’i faban.” Cliciwch **yma** i ddarllen mwy.

**Mynychwr cyngerdd yn diolch i achubwyr bywyd ar ôl ataliad ar y galon**

Llewygodd Alwyn Williams, 76, yn sydyn a stopiodd anadlu ar ôl mynychu cyngerdd Katherine Jenkins yn Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen ym mis Gorffennaf. Fe wnaeth feddygon y digwyddiad MediEvent symud Alwyn o’i gar yn gyflym, lle roedd o wedi syrthio’n swp dros y llyw, a rhoddodd driniaeth achub bywyd i’w ddiffibrilio ac ailddechrau ei galon cyn i Ymatebwyr Cyntaf yn y Gymuned Emma Lawrenson a Richard Witheridge cyrraedd. Mae Ymatebwyr Cyntaf yn y Gymuned yn cael eu hyfforddi gan Wasanaeth Ambiwlans Cymru i roi triniaeth a chymorth achub bywyd yn y munudau gwerthfawr cyn i ambiwlans gyrraedd. Cyrhaeddodd y gwirfoddolwyr newydd gymhwyso o fewn munudau i alwad 999 lle wnaethon nhw weithio o dan gyfarwyddyd y staff meddygol MediEvent ar y safle i sefydlogi'r taid i wyth a mynd ag ef i'r ysbyty. Cliciwch **yma** i ddarllen mwy.





**Cymdeithas Prif Weithredwyr Ambiwlans yn croesawu'r cadeirydd newydd Jason Killens**

Daw’r penodiad yn dilyn ymadawiad Daren Mochrie QAM, sydd wedi bod yn gadeirydd AACE ers mis Awst 2020. Dywedodd Anna Parry, Rheolwr Gyfarwyddwr AACE: “Mae cyhoeddiad heddiw o adolygiad yr Arglwydd Darzi o’r GIG yn tanlinellu pa mor bwysig a heriol yw hwn i sector ambiwlansys GIG y DU. “Rwy’n hyderus gyda Jason Killens fel ein cadeirydd newydd y byddwn yn elwa o barhad o’r arweinyddiaeth a’r weledigaeth gref rydyn ni wedi mwynhau am y pedair blynedd diwethaf yn ystod daliadaeth swydd Daren Mochrie. “Ar ran y sector ambiwlans, mae Daren wedi bod yn allweddol wrth greu a chynnal perthnasoedd gwaith ar y lefelau uchaf ymhlith rhanddeiliaid allweddol, y sawl sy’n gwneud penderfyniadau a llunwyr barn, rhywbeth rydyn ni’n gwybod y bydd Jason yn parhau wrth ganolbwyntio ar gyflymu ein gweithgarwch ar y cyd ar ddiwylliant gweithle ambiwlansys, gan sicrhau bod ein holl bobl yn ddiogel ac yn gweithio mewn timau tosturiol a chynhwysol.” Cliciwch yma i ddarllen mwy.

**Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn penodi Cyfarwyddwr Pobl Newydd**

Bydd Carl Kneeshaw, Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl yn Ymddiriedolaeth GIG Partneriaeth Iechyd Meddwl Avon a Wiltshire, yn ymuno â'r gwasanaeth ar 01 Tachwedd. Mae gan Carl gyfoeth o brofiad mewn rheolaeth Adnoddau Dynol strategol ac arweinyddiaeth sefydliadol ar ôl dal uwch swyddi arwain yng Ngwasanaeth Carchardai EF, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a’r Adran Gwaith a Phensiynau. Am ei benodiad, dywedodd Carl: “Mae’n fraint cael ymuno â sefydliad sydd mor ymroddedig i’w bobl a’i gleifion. “Yn fy rôl, bydd fy ffocws ar sicrhau bod cydweithwyr yn meddu ar y sgiliau a’r adnoddau sydd eu hangen arnynt, gan fuddsoddi yn ein pobl i greu sylfaen gref ar gyfer llwyddiant WAST yn y dyfodol. “Rwy’n edrych ymlaen yn fawr at weithio gydag Angela yn ei rôl newydd fel Cyfarwyddwr Newid Diwylliant a chyfrannu at y daith drawsnewidiol y mae WAST arni.” Cliciwch **yma** i ddarllen mwy.



## Ystadegau Cymdeithasol

**Cyfanswm y dilynwyr: 72,246**

**Cyfanswm y negeseuon: 511**

**Nifer o ymweliadau â'r ddolen: 878**

**Cyfanswm y cyrhaeddiad: 251,676**

## Cymryd Rhan

**Cymerwch ran mewn Diwrnod Ailgychwyn Calon**
Cynhelir Diwrnod Ailgychwyn Calon ar ac o gwmpas 16 Hydref bob blwyddyn. Mae mwy na 30,000 o ataliadau ar y galon y tu allan i'r ysbyty yn digwydd bob blwyddyn yn y DU. Yn anffodus, mae llai nag 1 o bob 10 o bobl yn goroesi. Gall CPR cynnar a diffibrilio fwy na dyblu'r siawns o oroesi, a dyna pam ei bod mor hanfodol dysgu. Cliciwch yma i ddarganfod mwy.



## Ymgyrch y Mis

